

## **GRANT CYNULLEIDFAOEDD NEWYDD CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

### ***Am beth rydyn ni'n chwilio:***

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i ni i gryfhau ac amrywio'r ddarpariaeth yr ydym yn ei chefnogi ar hyn o bryd. Hoffem glywed gennych, yn arbennig os ydych yn newydd i gyhoeddi yng Nghymru neu i ni fel Cyngor Llyfrau, os credwch y gallwn, mewn unrhyw ffordd, eich helpu i:

- ddatblygu awduron neu gyfranwyr newydd o gefndiroedd ethnig amrywiol o Gymru a rhoi'r cymorth a'r cyfleoedd y gallai fod eu hangen arnynt i gael eu cyhoeddi yng Nghymru;
- dargedu cynulleidfaoedd newydd yng Nghymru, creu deunydd gwreiddiol a/neu ddefnyddio cyfryngau neu fformatau nad ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd;
- sefydlu busnes neu gyhoeddiad a fydd yn cryfhau ac amrywio'r diwydiant fel ag y mae ar hyn o bryd yng Nghymru.

Fe fydden ni hefyd yn croesawu ceisiadau sy'n helpu i gyrraedd yr amcanion hyn os ydych yn cyhoeddi llyfrau neu gylchgronau yn barod. Mae'r grantiau hyn yn rhoi blaenoriaeth i awduron a chynulleidfaoedd newydd ac nid i gynhyrchu'r llyfrau a'r cylchgronau eu hunain. Mae gennym grantiau eraill ar gyfer hynny, ac mae croeso i chi eu trafod gyda ni unrhyw bryd.

### **Y grantiau sydd ar gael:**

Band A – Hyd at £2,500

Band B – £2,501 i £15,000

Band C – £15,001 i £40,000

Rydym yn croesawu cerisiadau ar y cyd ond dim ond un cais allwn ni ei dderbyn gan unrhyw unigolyn neu gwmni.

## **Pwy all wneud cais?**

Rydym am glywed gennych:

- os ydych yr un mor frwd â ni ynglŷn â chryfhau a gwella amrywiaeth yn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru;
- os ydych yn cyhoeddi llyfrau neu gylchgronau a bod eich prif swyddfa yng Nghymru;
- os ydych yn bwriadu datblygu busnes, rhwydwaith neu brosiect yng Nghymru sy'n cefnogi'r nodau sy'n cael eu rhestru uchod;
- os ydych eisoes yn fusnes, yn sefydliad dielw, neu'n unigolyn sydd wedi'i gofrestru fel cyhoeddwr hunangyflogedig gyda CThEM.

Rydym eisiau i'r broses hon fod mor gyflym a hawdd â phosibl, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen mwy o gefnogaeth i ysgrifennu'ch cais, cysylltwch â ni ar [post@llyfrau.cymru](mailto:post@llyfrau.cymru) a byddwn yn ymateb i'ch ymholiad cyn gynted â phosibl.

Rydym yn hyblyg o ran faint o wybodaeth y byddwch yn penderfynu ei rhannu, ond fyddwn ni ddim yn ystyried ceisiadau sy'n mynd dros yr uchafswm a nodwyd.

### **BAND A – Hyd at £2,500**

Dywedwch wrthym mewn hyd at 500 o eiriau am eich cynlluniau ar gyfer y grant rydych yn gwneud cais amdano, a'r hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni.

### **BAND B – £2,501–£15,000**

Dywedwch wrthym mewn hyd at 750 o eiriau beth yr ydych yn gobeithio ei gyflawni a sut mae hynny'n cyrraedd yr amcanion ar ddechrau'r ddogfen hon, gan gynnwys eich profiad blaenorol yn ogystal â manylion eich amserlen a'ch costau.

### **BAND C – £15,001–£40,000**

Cyflwynwch eich syniad mewn hyd at 1000 o eiriau a dywedwch wrthym sut mae eich cynnig yn ein helpu i gyrraedd ein nodau fel maen nhw'n cael eu disgrifio yn y ddogfen hon ac yn ein Strategaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Dylech gynnwys cynllun busnes llawn sy'n egluro:

- sut y caiff eich prosiect ei redeg a'i reoli, lle rydych chi'n cael eich syniadau a sut rydych chi'n sicrhau bod gennych chi dîm rheoli cryf;
- sut y byddwch yn datblygu cyfleoedd mewn cyhoeddi ar gyfer swyddi gweinyddol, awduron a/neu artistiaid, a fydd yn gwella amrywiaeth ac yn cryfhau'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a sut y bydd eich prosiect yn datblygu cynnwys newydd ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd;
- sut y byddwch yn adnabod ac yn cyrraedd yr awduron a'r cynulleidfaoedd newydd hynny;
- sut gallwch chi wneud yn siŵr y bydd y busnes yn gynaliadwy yn ariannol, a pha ffynonellau incwm eraill y byddwch yn chwilio amdanynt i gadw'r busnes i fynd ar ôl y prosiect hwn;
- pa risgiau rydych yn eu hwynebu a sut y byddwch yn delio â'r risgiau hynny;
- pa gymorth arall y gallwch chi dynnu arno, e.e. bwrdd ymgynghorol.

## Amserlen

Rydym eisiau prosesu'r ceisiadau yn gyflym, felly a fydddech chi cystal â'n llenwi'r ffurflen hon

<https://forms.office.com/r/PntsJEbch>

erbyn canol dydd ddydd Llun, 14eg o Fawrth 2022.

**NB** Bydd angen anfon cynllun busnes llawn gyda cheisiadau **BAND C** at [post@llyfrau.cymru](mailto:post@llyfrau.cymru) erbyn yr un dyddiad, os gwelwch yn dda.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

1. Byddwn yn penderfynu ar y grant drwy ystyried y wybodaeth y byddwch yn ei rhannu gyda ni.
2. Os bydd angen, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn i chi egluro rhannau o'ch cais.
3. Unwaith y bydd eich cais wedi ei gytuno, byddwn yn gwneud y taliad grant i chi ar unwaith. Bydd yn debyg o fod ar gyfer y swm llawn, ond rydyn ni'n cadw'r hawl i

gynnig llai na'r hyn rydych yn gofyn amdano neu i dalu grantiau mawr mewn mwy nag un rhan.

4. Byddwn yn gofyn am adroddiad ar ôl chwe mis, ac efallai y byddwn yn gofyn am adroddiadau amlach ar gyfer grantiau mwy.

Rydym yn gobeithio penderfynu ar y grantiau o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad cau. Os bydd nifer y ceisiadau yn gwneud hyn yn anodd, byddwn yn cysylltu â chi i drafod amserlen newydd.

Bydd y penderfyniad hwn yn derfynol, ond gallwch gwyno os ydych yn poeni na wnaethom ddilyn y broses gywir wrth ymdrin â'ch cais.

### **Gwybodaeth bellach**

Os ydych eisiau trafod y cynllun ymhellach, cysylltwch ar [post@llyfrau.cymru](mailto:post@llyfrau.cymru) a byddwn yn falch o helpu.

Byddwn yn ceisio ateb eich cwestiynau cyn gynted â phosibl. Os ydych eisiau i ni eich ffonio chi, rhowch eich rhif yn yr e-bost a byddwn yn eich ffonio'n ôl.

Gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth y byddwch yn ei rhannu yn llawn, yn glir ac yn onest. Os byddwn yn darganfod bod y wybodaeth yn gamarweiniol mewn unrhyw ffordd, efallai y bydd gofyn i ni hawlio'r grant yn ôl neu gymryd camau eraill os bydd angen.

### **Rhyddid Gwybodaeth**

Rydym am fod mor agored â phosibl. Credwn fod gan y cyhoedd hawl i wybod sut rydym yn gwario arian cyhoeddus a sut rydym yn penderfynu ar grantiau. Er nad ydym yn awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gan fod ein harian yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru efallai y bydd disgwyl yn ôl y gyfraith i ni ddarparu eich cais a'n hasesiad ohono i aelodau'r cyhoedd sy'n gofyn am fynediad o dan y Ddeddf. Ni fyddwn yn rhyddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau sy'n dod o dan unrhyw un o eithriadau'r Ddeddf. Ewch i wefan yr ICO i gael rhagor o wybodaeth a manylion am yr eithriadau. Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r symiau a ddyfarnwyd o'r gronfa hon yn ein cyfrifon blynyddol.

## **I wneud cwyn**

Os ydych yn anhapus gyda'r ffordd yr ydym yn trin eich cais, gallwch ofyn am gopi o'n Proses Gwyno. Sylwch mai dim ond os ydych chi'n credu nad ydyn ni wedi dilyn ein proses wrth drafod eich cais y gallwch gwyno. Ni allwch ddefnyddio'r drefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad.

## **Diogelu data**

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Y rheini sy'n rheoli sut rydym yn casglu, rheoli, rhannu a storio data personol a'ch hawliau yn y cyd-destun hwnnw. Mae rhagor o wybodaeth yn ein polisi preifatrwydd. Ni fyddwn yn datgelu data personol na data personol sensitif (fel maen nhw'n cael eu diffinio yn y Rheoliadau) heb eich caniatâd oni bai bod dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny.